COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 21 TACHWEDD 2018, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JR McCarthy – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | PA Davies | SK Dendy |
| DK Edwards | J Gebbie | T Giffard | RM Granville |
| DG Howells | A Hussain | RM James | B Jones |
| M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis |
| DG Owen | D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella |
| JC Radcliffe | KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw |
| CE Smith | SG Smith | JC Spanswick | RME Stirman |
| G Thomas | T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables |
| SR Vidal | MC Voisey | LM Walters | KJ Watts |
| CA Webster | DBF White | PJ White | A Williams |
| AJ Williams | HM Williams | JE Williams | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

CA Green

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kevin Stephens | Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Democataidd |
| Kelly Watson | Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |

236. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd CE Smith fuddiant personol a rhagfarnol yn eitem 12 yr agenda – Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd T. Giffard a thynnu yn ôl o'r cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth o'r eitem hon.

Datganodd y Cynghorydd CA Webster fuddiant personol yn eitem 7 yr agenda – Diweddariad ar Gynllun Adfywio Porthcawl am ei bod wedi gweithio gyda'r tirfeddiannwr am ychydig yn flaenorol.

Datganodd y Cynghorydd N Clarke fuddiant personol yn eitem 4 yr agenda (i) Cyhoeddiad gan Aelod y Cabinet – Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol am ei bod yn aelod am oes o Glwb Achubwyr Bywydau Rest Bay.

237. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 24 Mehefin 2018 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

238. I DDERBYN CYHOEDDIADAU GAN Y CANLYNOL:

Maer

Gwnaeth y Maer longyfarch Gorsaf Dân Pen-y-bont ar Ogwr ar ei llwyddiant am ennill am y drydedd tro yn olynol ym Mhencampwriaeth y Byd am dynnu o gerbyd modur. Rhoddodd wybod i'r Cyngor fod cyfle i wneud enwebiadau ar gyfer ei Wobrau Dinasyddiaeth blynyddol. Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw 25 Ionawr 2019, gyda'r enillwyr yn cael eu hanrhydeddu mewn digwyddiad ym mis Mawrth 2019.

Dywedodd y Maer wrth y Cyngor am y digwyddiadau yr oedd ef a'i Gydweddog wedi'u mynychu dros y mis diwethaf a oedd yn cynnwys gosod torch yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr i goffáu diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Ymwelodd y Maer a'r Cydweddog â chwmnïau a oedd wedi derbyn gwobrau yng ngwobrau busnes Pen-y-bont ar Ogwr ac aethpwyd i wobrau gwirfoddoli BAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr), twrnamaint pêl-droed plant y Rotari, cynhyrchiad Ysgol Brynteg o *High School Musical*, gŵyl ddiolchgarwch Ysgol Gynradd Notais a sioe geir *Hot Rod* ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Treuliodd ef a'i Gydweddog amser yn gwerthu pabïau gyda'r Cynghorydd DBF White yn ail-lansiad Canolfan Llesiant Cefn Glas. Gwnaethon nhw hefyd ymweld ag Ysgol Afon y Felin i gynorthwyo â dadorchuddio cerflun ar dir yr ysgol yn ogystal â chynrychioli'r awdurdod i nodi agoriad swyddogol Cwrt y Crwner ym Mhontypridd a mynd i Wasanaeth Dinesig Bro Morgannwg.

Dirprwy Arweinydd

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd wrth y Cyngor am ymgynghoriad cyllideb 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr' a oedd wedi'i gau yn gynharach yr wythnos hon, a oedd wedi derbyn 2,677 o arolygon wedi’u cwblhau. Gwnaeth 679 o bobl gymryd rhan yn y sesiynau *clicker pad* ac roedd 2,148 wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau. Bu ymgysylltu uniongyrchol â grwpiau megis Cynghrair Pobl Anabl Pen-y-bont ar Ogwr a BAVO. Cafwyd rhaglen gyhoeddusrwydd lawn ynghyd â chyfres o stondinau a thrafodaethau ymgysylltu â'r cyhoedd a oedd wedi digwydd ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Cynhaliwyd cyfres o weithdai cyllideb cynhyrchiol iawn mewn ysgolion uwchradd a chynradd, gan annog pobl ifanc i ymwneud yn fwy â'r broses ddemocrataidd. Diolchodd y swyddogion am eu gwaith caled yn cyflwyno'r ymgynghoriad ac i'r cyhoedd am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Aelod y Cabinet dros Gymunedau

Cyhoeddodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau fod camerâu CCTV newydd wedi'u gosod er mwyn helpu i wneud traethau yn Rest Bay a Newton yn fwy diogel. Bydd y camerâu yn cael eu monitro o bell gan wirfoddolwyr o Sefydliad Cenedlaethol *Coastwatch* a fydd yn cydweithio'n agos ag achubwyr bywydau'r RNLI (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub). Bydd y ddau sefydliad yn rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau diogelwch yn uniongyrchol i wylwyr y glannau a'r gwasanaethau brys. Mae'r camerâu wedi'u gosod gan y Cyngor fel rhan o ymdrechion cydweithredol i wneud y morlin mor ddiogel â phosibl.

Cyhoeddodd hefyd fod rhaglen £400,000 ar waith i wella palmentydd a llwybrau cerdded yn rhai o'r prif leoedd yn y Fwrdeistref Sirol, gydag 16 o strydoedd yn cael eu targedu i gael eu hatgyweirio a gwella problemau draenio. Y strydoedd sy'n cael eu targedu yw Heol Onnen a Fairfield, Gogledd Corneli, Dol Afon a Maes y Wern, Pencoed, Stryd y Dywysoges, Maesteg, Blosse Street, Nantyffyllon, East Avenue and West Avenue, Cefn Cribwr, Rhodfa’r Gorllewin, Porthcawl, Burns Crescent, Bryntirion, Brynffrwyd Close, Llangrallo, Heol Dewi Sant, Betws, Hill View, Pontycymer, Rhes Moira, Cwm Ogwr, a Kenry Street, Evanstown.

Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Cyhoeddodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei fod ef ac Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol wedi ymweld â datblygiad Lon Derw, Ynysawdre i weld y cynnydd. Mae'r cyfleuster gofal ychwanegol yn y camau olaf o’r gwaith paratoi, tra bod elfen y cartrefi fforddiadwy wedi'i chynllunio a'i haddasu'n arbennig i gefnogi'r sawl sydd ag amrediad o anghenion ac anableddau. Gwnaeth ef ac Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol dystio'r effaith gadarnhaol y mae'r datblygiad yn ei chael yn barod ar fywydau pobl leol ac roedd yn edrych ymlaen at weld datblygiad Lon Derw yn agor yn llawn.

Cyhoeddodd hefyd bod y Cyngor yn ddiweddar wedi nodi Wythnos Genedlaethol Diogelu gyda chyfres o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r gwahanol fathau o drais. Roedd hwn yn dilyn lansiad diweddar Hwb Diogelu Amlasiantaethol Pen-y-bont ar Ogwr, sydd yn diogelu pobl sy'n agored i niwed rhag trais a cham-fanteisio. Datganodd fod y Cyngor a'i bartneriaid yn cyflwyno sesiynau ar bynciau a oedd yn cynnwys sut i adnabod achosion o gam-fanteisio’n rhywiol ar blant, siarad â phlant yn eu harddegau am eu hiechyd a'u llesiant, delio â cham-drin cyffuriau ac alcohol, 'secstio', e-ddiogelwch, twyll ar stepen y drws a llawer mwy. Rhoddodd wybod i Aelodau fod Diogelu yn gallu digwydd ar sawl ffurf a bod gan bawb ran i'w chwarae i helpu i gadw eraill yn ddiogel. Roedd yn falch o weld y Cyngor yn nodi'r wythnos mewn modd manwl a chynhwysfawr ac yn gobeithio ei bod wedi helpu pobl i adnabod y peryglon a chael mynediad at gymorth a chefnogaeth briodol.

Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Cyhoeddodd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fod mwy na £8,000 wedi'i fuddsoddi mewn chwaraeon ar lawr gwlad o ganlyniad i'r rownd ddiweddaraf o grantiau'r Gist Gymunedol. O ganlyniad i'r cymorth ariannol, bydd Cornelly Striders, Clwb Triathlon Pencoed, Clwb Bechgyn a Merched Abercynffig, Achubwyr Bywydau Rest Bay, Saethwyr Targed Maes Tondu, Clwb Trampolin Vertigo, Clwb Gymnasteg All Star a Grŵp Diddordeb Cymunedol Impetus Dance i gyd yn elwa. Datganodd fod y Gist Gymunedol yn cael ei hariannu gan Chwaraeon Cymru ac yn cael ei rhedeg yn lleol gan y Cyngor ac yn cynnig grantiau hyd at £1,500 i glybiau chwaraeon, sefydliadau a grwpiau i helpu pobl i ddod yn fwy heini. Gwnaeth annog Aelodau i roi gwybod i'w hetholwyr am y cyfle hwn gyda manylion ar gael ar wefan Chwaraeon Cymru.

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol wybod i Aelodau am y cynlluniau sydd yn eu lle i gefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd y gaeaf hwn. Nododd fod lle diogel, sych a chynnes i gysgu ynddo ar gael yn The Elms yn Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr o 8pm tan 8am, gydag oriau estynedig ar Wyliau Banc neu os yw'r tywydd yn eithafol. Caiff ei ddarparu gan y cynllun Floor space. Mae gofod llawr yn cael ei ddyrannu’n ddyddiol i ddefnyddwyr sy’n gwneud cais amdano, drwy fynd i Ganolfan Cymorth Leol Gwalia yng Nghanolfan Stryd Bracla rhwng 3pm a 5pm. Mae brecwast ar gael rhwng 6:30am a 9am, lle darperir rhôl frecwast a diod boeth i'r sawl sy'n cysgu ar y stryd ac mae canolfan galw heibio ar gael ar Stryd y Parc rhwng 9.30am a 12pm, sy’n darparu cyfleusterau ymolchi, mynediad at ffôn a chyfrifiadur. Mae hefyd gwasanaeth galw heibio yn y prynhawn ar gael yn y Zone yn Dunraven Place rhwng 1:30pm i 4:30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener a 9am i 12pm ar ddydd Sadwrn, lle gall defnyddwyr y gwasanaeth gael pryd bwyd.

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol wybod i Aelodau fod gwasanaeth allan o oriau y Tîm Atebion Tai ar waith, yn cynnig cefnogaeth, cyngor a

chymorth ymarferol ym mhob un o'r gwasanaethau a grybwyllwyd gyda'r nod yn y pen draw i ddarparu llety ar gyfer y sawl sy'n cysgu ar y stryd.

Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio

Cyhoeddodd Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio ei bod nawr yn bosibl gwneud ceisiadau ar-lein ar gyfer derbyniadau i ysgolion uwchradd. Roedd lansiad y cyfleuster newydd wedi bod yn hynod galonogol ac mae bron i fil o geisiadau wedi eu derbyn hyd yma ar gyfer derbyniad Medi 2019. Bydd derbyniadau i ysgolion babanod, ysgolion cynradd ac ysgolion iau yn agor ar 26 Tachwedd a gofynnodd i Aelodau hysbysu eu hetholwyr am hyn.
Gall ceisiadau gael eu cwblhau gan ddefnyddio ffurflenni sydd ar gael yn adran 'Fy Nghyfrif' y wefan.

Gwnaeth Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio longyfarch Ysgol Gynradd Croesty am fod yr ysgol ddiweddaraf i ennill Gwobr Efydd Teithio Llesol gan Sustrans Cymru, i gydnabod y ffaith bod disgyblion a rhieni yn defnyddio dwy olwyn yn hytrach na phedair i gyrraedd yr ysgol o ddydd i ddydd.

Cyhoeddodd hefyd bod mwy na 1.5 miliwn o brydau bwyd maethlon yn cael eu coginio a'u darparu mewn ysgolion lleol bob blwyddyn, a oedd yn un o'r ffeithiau a gyhoeddwyd i hyrwyddo Wythnos Genedlaethol Prydau Ysgol. Fel rhan o'r digwyddiad, treuliodd cogydd Ysgol Gynradd Tremaen, Leanne Rees Sheppard, sef Cogydd Ysgol y Flwyddyn Cymru ar hyn o bryd, ddiwrnod yn y gegin ym mwyty James Sommerin ym Mhenarth. Dywedodd wrth yr Aelodau fod prydau ysgol yn chwarae rhan bwysig iawn a bod 50 o ysgolion nawr yn derbyn taliadau ar-lein.

Prif Weithredwr

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr fod asesydd ansawdd 'Quest' y diwydiant hamdden wedi mynd ati'n ddiweddar i graffu ar waith cyfunol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Halo Leisure, siopau lleol, clybiau a grwpiau gwirfoddol a oedd wedi cyflwyno sgôr 'ardderchog' a chanmolodd effaith y dull partneriaeth ar iechyd, llesiant a ffitrwydd trigolion lleol. Datganodd mai dyma'r tro cyntaf i Quest asesu dull partneriaeth yng Nghymru, ac felly mae'r sgôr 'ardderchog' yn gamp sylweddol. Ers i'r bartneriaeth hamdden ddechrau yn 2012, bu cynnydd o 9% yn nifer yr ymwelwyr â chanolfannau bywyd ochr yn ochr â buddsoddiad enfawr mewn cyfleusterau newydd.

Gwnaeth Quest dynnu sylw at waith y bartneriaeth i ehangu cyfleoedd ar gyfer chwaraeon anabledd a mynd i'r afael â materion fel anfantais a chydraddoldeb rhywiol, gan amlygu mentrau llwyddiannus fel y Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, y Rhwydwaith Merched, Family Active Zone, Gemau Olympage, Access to Leisure, Move More Often, achrediad arian InSport a mwy. Nododd fod y bartneriaeth wedi bod yn allweddol i alluogi hyn oll, ac fe wnaeth longyfarch swyddogion, Aelodau a phartneriaid sydd wedi helpu i gyflawni'r llwyddiant hwn. Roedd yn gobeithio y bydd partneriaethau o'r fath yn parhau i gyflwyno gwasanaeth o safon uchel i'r bobl leol.

239. I DDERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Adroddodd yr Arweinydd y bydd Pwyllgor Penodiadau yn cael ei gynnal ar 6 Rhagfyr 2018 i ystyried y broses benodi ar gyfer swydd y Prif Weithredwr dros dro ac i wneud penodiad parhaol ar gyfer swydd Swyddog Adran 151.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod i'r Cyngor fod Arweinwyr y Cyngor wedi cwrdd â'r Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i drafod cyllid yr awdurdodau lleol. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol o £13 miliwn

i awdurdodau lleol, a fydd yn golygu y bydd yr awdurdod hwn yn derbyn £595 mil yn ychwanegol, sydd bellach yn cyfateb i leihad o 0.3% yn y Grant Cymorth Refeniw o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Datganodd y byddai £340 mil yn cael ei ddyrannu i ariannu'r cynnydd ym mhensiynau athrawon a £170 mil i ofal cymdeithasol. Hysbysodd y Cyngor y bydd angen gwneud arbedion o £8 miliwn yn 2019/20.

Hysbysodd Aelodau hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynnydd mewn arian cyfalaf o £2.2 miliwn i awdurdodau lleol, gan olygu y bydd yr awdurdod hwn yn derbyn £880 mil yn ychwanegol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud newidiadau i'r broses o gyllido rhaglen Band B, sef y bydd yn talu 65% o'r costau cyfalaf ar gyfer ysgol newydd gyda'r Cyngor yn talu'r 35% sy'n weddill. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynyddu ei chyfran o gyllid cyfalaf ar gyfer cyfleusterau i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac unedau cyfeirio disgyblion i 75%, gyda'r Cyngor yn talu'r 25% o gostau sy'n weddill.

Hysbysodd Aelodau, yng ngoleuni'r newidiadau i gyllid, y byddai'n angenrheidiol i'r adroddiad ar y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Band B gael ei dynnu'n ôl.

240. SYLFAEN Y DRETH GYNGOR 2019-20

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a Swyddog Adran 151 fanylion ar sylfaen y dreth gyngor ac amcangyfrif o'r gyfradd gasglu ar gyfer 2019-20.

Dywedodd mai amcangyfrif sylfaen y dreth gyngor ar gyfer 2019-20 oedd 54,807.11 ac mae amcangyfrif y gyfradd gasglu yw 98%. Y sylfaen dreth gyngor net felly oedd 53,710.97. Dywedodd fod Sylfaen y Dreth Gyngor yn cael ei darparu i Lywodraeth Cymru ac yn cael ei defnyddio fel rhan o ddosbarthiad y Grant Cymorth Refeniw yn y Setliad Llywodraeth Leol. Ar gyfer y pwrpas o ddosbarthu RSG, cymerir fod cyfraddau casglu yn 100%. Mae swm y dreth gyngor sy'n ddyledus am annedd ym Mand D yn cael ei gyfrifo drwy rannu gofyniad y gyllideb flynyddol i'w ariannu gan drethdalwyr gan Sylfaen y Dreth Gyngor. Hysbysodd y Cyngor y bydd elfen y dreth gyngor o gyllideb y Cyngor yn seiliedig ar sylfaen net y dreth gyngor o 53,710.97.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd y swyddogion am gasglu cyfran uchel o dreth gyngor ac anogodd drigolion a oedd yn cael anhawster i dalu eu treth gyngor i gysylltu â'r awdurdod.

Gwnaeth aelod o'r Cyngor gwestiynu canran y gyfradd gasglu a gyflawnwyd. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd mai'r gyfradd gasglu yw 97.3%.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor wedi:

(1) Cymeradwyo sylfaen y dreth gyngor a'r gyfradd gasglu ar gyfer 2019-2020, fel y gwelir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo sylfaen y dreth ar gyfer yr ardaloedd cymunedol a nodir yn Adran A yr adroddiad.

241. DIWEDDARIAD AR GYNLLUN ADFYWIO PORTHCAWL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau ddiweddariad ar Gynllun Adfywio Porthcawl a gofyn am gymeradwyaeth i adolygu'r rhaglen gyfalaf i fuddsoddi derbyniadau cyfalaf rhagweledig sy'n deillio o werthu tir, yn cynnwys Maes Parcio Salt Lake. Gofynnodd hefyd am gymeradwyaeth i sicrhau arian cyfatebol ar gyfer

gwelliannau i amddiffynfeydd arfordirol a fydd yn rhyddhau cyfnodau datblygu yn y dyfodol.

Hysbysodd y Cyngor fod y broses o gaffael buddiannau llesddaliad trydydd partïon ym maes parcio Salt Lake, swm o £3.3 miliwn wedi'i chymeradwyo gan y Cabinet ar 19 Rhagfyr 2017, a roddodd fuddiant rhydd-ddaliadol heb ddyled i'r Cyngor ar y safle i sicrhau ei fod yn cael ei ailddatblygu. Dywedodd mai'r cynllun gwreiddiol oedd ystyried rhoi archfarchnad fawr ym maes parcio Hillsboro, ond ers hynny, arweiniodd newidiadau sylfaenol yn y farchnad siopau bwyd at alw am siop fwyd lai o faint. Yn dilyn asesiad o opsiynau, roedd y strategaeth bresennol yn seiliedig ar leoli'r siop ar ochr ogleddol Salt Lake gan gadw Hillsboro fel prif faes parcio canol y dref.

Adroddodd mai un o'r prif ofynion i sicrhau bod safle cyfan Salt Lake yn cael ei ddatblygu yw gwaith amddiffyn arfordirol i leihau peryglon llifogydd, a heb y gwaith hwn, ni fyddai'n bosibl datblygu mwyafrif y parseli a nodwyd ar gyfer tai. Byddai denu cyfleusterau hamdden ar ochr ddeheuol y safle yn gallu bod yn broblematig hefyd. Hysbysodd y Cyngor fod achos busnes amlinellol ar gyfer gwaith amddiffyn arfordirol wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a bod cynlluniau manwl yn cael datblygu. Os bydd yn llwyddiannus, byddai'n arwain at gyllid o 75% drwy'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol tuag at y gwaith hwn. Gofynnwyd i'r awdurdod gyfrannu 25% o arian cyfatebol. Dywedodd nad oedd yn ddisgwyliedig cael penderfyniad ar y cyllid gan Lywodraeth Cymru tan hydref / gaeaf 2019.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod dadansoddi marchnadoedd, cyfyngiadau i seilwaith allweddol ac ystyriaethau llif arian yn gorchymyn bod y datblygiad yn cael ei gyflwyno mewn camau. Amlinellodd y strategaeth arfaethedig fesul cam:

- Cam 1 – Safle Archfarchnad
- Cam 2 – Tai
- Cam 3 – Maes Parcio Hillsboro Place
- Cam 4 – Gwaith amddiffyn rhag llifogydd arfordirol ar Bromenâd y Dwyrain a'r ardal ehangach
- Cam 5 & 6 – Safleoedd Tai
- Cam 7 – Safle Hamdden

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau'r sail resymegol dros glustnodi derbyniadau cyfalaf ynghyd â chrynodeb o dderbyniadau. Amlinellodd hefyd strategaeth ar gyfer y cynnig i ail-fuddsoddi derbyniadau lle caiff buddsoddiad ei wneud ym maes parcio Hillsboro, tra byddai gwelliannau'n cael eu gwneud i faes parcio Salt Lake er mwyn ei alluogi i redeg fel maes parcio cyhoeddus gan y Cyngor a fydd yn gofyn am beiriannau talu ac arddangos newydd. Byddai gwelliannau hygyrchedd yn cael eu gwneud yn Portway gan gynnwys mannau croesi a'r posibilrwydd o gyflwyno parcio ar y stryd. Byddai gwaith ffisegol i'r safle hamdden yn cael ei ddwyn ymlaen fel rhan o'r strategaeth hamdden a byddai gwelliannau ffisegol yn cael eu gwneud i fynedfa'r safle, y promenâd a chysylltiadau cerddwyr i ganol y dref. Y costau prosiect amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yw £2.64 miliwn a gofynnir am awdurdod i gynnwys hyn yn y rhaglen gyfalaf. Byddai'r datblygiad yn cael ei gyflwyno fesul cam i leihau'r swm o fenthyca darbodus a dim ond pan fydd derbyniadau o werthiannau wedi'u sicrhau y gellid mynd i gostau seilwaith ac eithrio'r £100,000 sy'n angenrheidiol i wneud maes parcio Salt Lake yn weithredol.

Cymeradwyodd Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio y swyddogion am gyflwyno'r datblygiad fesul cam mewn modd rhesymegol. Croesawodd yr Aelodau'r cynigion a chwestiynu p'un a fyddai'n fwy buddiol oedi gwerthu'r safle nes i'r gwaith amddiffyn

arfordirol gael ei gwblhau er mwyn sicrhau bod gwerth y tir a derbyniadau cyfalaf ar eu lefel uchaf posib. Gwnaeth yr Arweinydd hysbysu'r Cyngor nad oedd camau cychwynnol y datblygiad mewn ardal a oedd mewn perygl o lifogydd. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau y Cyngor fod camau 5-7 mewn ardaloedd a oedd mewn perygl o lifogydd. Gwnaeth yr Arweinydd hysbysu'r Cyngor fod adwerthwyr bwyd wedi dangos diddordeb sylweddol mewn datblygu siop fwyd. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai cam 1 y safle ar gyfer datblygu siop fwyd a fydd wedi'i lleoli'n agosach at ganol y dref. Ystyriwyd na fyddai'n addas lleoli'r siop fwyd ar lan y môr. Nododd hefyd y byddai'r meysydd parcio sy'n cael eu hailddatblygu yn cynnwys mannau gwefru ar gyfer cerbydau trydanol. Diolchodd yr Arweinydd yr Aelodau lleol am fod yn gefnogol o'r cynigion.

Gwnaeth aelod o'r Cyngor gwestiynu'r rhesymeg dros fuddsoddi yn seilwaith y meysydd parcio. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau y Cyngor fod angen sicrhau cydbwysedd wrth fuddsoddi yn y meysydd parcio er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safon a'u gwneud yn ddiogel.

Gwnaeth aelod o'r Cyngor gwestiynu p'un a fyddai'n fwy synhwyrol gwneud cynnig am waith amddiffyn arfordirol i gynnwys Sandy Bay. Datganodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau y byddai'n well gan Lywodraeth Cymru ariannu yn unol â cham 4 o'r datblygiad. Dywedodd fod y gwaith o ddatblygu maes parcio Salt Lake yn ei gwneud yn ofynnol bod y gwaith amddiffyn arfordirol yn cael ei gyflawni ac y byddai unrhyw oedi i'r gwaith hwn yn achosi oedi wrth ddatblygu'r safle.

Gwnaeth aelod o'r Cyngor ddiolch i'r swyddogion ac Aelod y Cabinet am eu cyfraniad ac am fabwysiadu dull gweithredu newydd o ran y datblygiad.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r elfennau priodol sy'n angenrheidiol i gyflwyno Cynllun Adfywio Porthcawl:

1. Adolygu'r rhaglen gyfalaf i gynnwys cyllideb o £2.64 miliwn o fuddsoddiad i adfywio Porthcawl, a ariennir gan gyfuniad o dderbyniadau cyfalaf a gafwyd drwy werthu tir yn Salt Lake, a benthyca darbodus;

2. Darparu 25% o arian cyfatebol (tua £1 miliwn) tuag at waith amddiffyn arfordirol ym Mhorthcawl ac i'r awdurdod sicrhau 75% o gyllid drwy'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol tuag at y gwaith hwn. Ni fydd y cynllun yn cael ei gynnwys yn y rhaglen gyfalaf nes i 75% o arian y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol gael ei gymeradwyo;

   Noder: bydd y cyfanswm yn cael ei gadarnhau cyn cyflwyno'r achos busnes manwl i Lywodraeth Cymru sy'n ddisgwyliedig oddeutu Haf 2019.

3. Ddirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a Swyddog Adran 151 i gytuno ar unrhyw amrywiadau mewn costau sy'n gysylltiedig â Chynllun Datblygu Porthcawl.

242. PARC AFON EWENNI

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adrodd ar gynnig i ddatblygu Depo Priffyrdd modern yn Nhredŵr ar ôl troed llai er mwyn galluogi'r cynnig i adfywio safle Parc Afon Ewenni i ddatblygu a diogelu gofynion y depo ar gyfer y Cyngor i'r dyfodol fel rhan o'r broses gyffredinol o resymoli'r depo. Gwnaeth hefyd ofyn am gymeradwyaeth ar gyfer diwygio'r Rhaglen Gyfalaf er mwyn cynnwys swm cyfalaf pellach o £4,944,000 yn y Rhaglen Gyfalaf i adnewyddu a datblygu'r depo'n llawn, i'w

ariannu drwy werthu tir yn Nhredŵr fel rhan o Barc Afon Ewenni ac yn rhannol gan arian cyfalaf cyffredinol.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau y Cyngor y cafwyd cymeradwyaeth gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2016 fel mesur dros dro i weithredu Depo ôl troed llai yn Nhredŵr am y 4/5 mlynedd nesaf er mwyn dod o hyd i gydbwysedd rhwng gweithredu depo dichonadwy a gwneud y mwyaf o'r tir sydd ar gael i'w waredu. Wrth ddatblygu'r strategaeth ar gyfer depo gweithredol ag ôl troed llai yn Nhredŵr, cafodd dau ddewis eu nodi a'u hasesu. Dewis 1 i gadw Adeilad y Priffyrdd ac Adeilad Biffa; dymchwel Cyflenwadau'r Fwrdeistref Sirol (CBS), adeilad Fflyd a storfa biniau olwyn. Dewis 2 i gadw Adeilad Biffa, dymchwel CBS, Fflyd, Priffyrdd a'r storfa biniau olwyn. Gwnaeth Bwrdd Parc Afon Ewenni benderfynu datblygu dewis 2 a chwblhawyd y gwaith yn ystod 2017.

Adroddodd y byddai unrhyw gyflunio yn y dyfodol o ran ad-drefnu llywodraeth leol yn dal i ofyn am Ddepo Priffyrdd ym Mhen-y-bont ar Ogwr i wasanaethu'r Fwrdeistref Sirol. Amcangyfrifwyd y byddai Depo newydd mewn lleoliad newydd yn costio rhwng £9 miliwn a £12 miliwn, o ganlyniad i newid (tebygol) a gofynion mwy beichus gan Cyfoeth Naturiol Cymru. I gydnabod hyn, roedd y dewis o weithredu depo a oedd prin wedi'i newid am 4/5 mlynedd fel mesur dros dro yn unol â chymeradwyaeth y Cabinet ac yna adeiladu depo newydd mewn lleoliad diwygiedig yn edrych yn fwyfwy anfforddiadwy.

Dywedodd fod ymchwiliad wedi'i gynnal i nodi'r gwahaniaethau rhwng gweithrediad parhaol yr ôl troed llai am 4-5 mlynedd, gyda depo newydd yn cael ei adeiladu mewn lleoliad newydd wedi hynny, a'r dewis arall o ddatblygu depo gweithredol parhaol ar ôl troed llai yn Nhredŵr. Dywedodd mai cyfanswm y gyllideb gyfalaf ar hyn o bryd ar gyfer y cynllun oedd £4.376 miliwn. Mae rhywfaint o'r gyllideb hon eisoes wedi'i neilltuo i waith yn Nepo Bryncethin, o ganlyniad i symud rhai o weithrediadau'r parciau a'r amgylchedd adeiledig i'r lleoliad hwn, gan adael £3.2 miliwn yn weddill.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau mai oddeutu £8.144 miliwn oedd cost amcangyfrifedig yr opsiwn dewisol; fodd bynnag, roedd diffyg nawr rhwng cost gyffredinol y gwaith cynnal a chadw/cydymffurfio a chyfanswm amcangyfrifedig y derbyniad tir net a'r gyllideb gyfalaf bresennol. Er mwyn datblygu'r dewis hwn, dywedodd fod buddsoddiad cyfalaf pellach o £4.944 miliwn yn ofynnol yn ychwanegol at yr amcangyfrif cyfalaf a oedd yn weddill o £3.2 miliwn, a fyddai'n dod o gyfanswm amcangyfrifedig y derbyniad tir o £3.5 miliwn, gyda £1.444 miliwn yn ychwanegol o arian cyfalaf cyffredinol. Amlinellodd gynllun y depo arfaethedig. Dywedodd mai'r prif ysgogwyr i gyflawni'r gydymffurfiaeth yw'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a bodloni gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru.

Hysbysodd y Cyngor hefyd ei fod yn awyddus i rannu cyfleusterau'r depo newydd gyda sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig â'r arfer yn Nepo Bryncethin. Dywedodd y bydd y depo newydd yn effeithlon ac yn drefnus iawn.

Wrth ganmol y cynnig, diolchodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau y swyddogion am arfer barn gadarn a chredodd fod y cynnig am ddepo ag ôl troed llai yn ddewis darbodus. Wrth gefnogi'r cynnig, dywedodd yr Arweinydd ei fod yn gobeithio y bydd y depo newydd yn cyrraedd safonau rhagoriaeth BREEAM.

Gwnaeth aelod o'r Cyngor gwestiynu p'un a oedd yn ddoeth datblygu depo newydd ar hyn o bryd a ph'un a fyddai'n well oedi cyn gwneud penderfyniad pan mae gwasanaethau fel chwistrellu chwyn yn cael eu lleihau. Dywedodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau fod y depo newydd yn angenrheidiol i wasanaethu trigolion y Fwrdeistref Sirol oherwydd bydd cerbydau graeanu a thrwsio ar y priffyrdd yn cael eu lleoli yn y depo a ni allai'r Cyngor fforddio datblygu safle mwy.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor wedi:

(1) nodi mai’r opsiwn dewisol arfaethedig ar gyfer datblygu’r Depo Priffyrdd yw darparu depo parhaol a modern, sy'n addas i'w ddiben, ar ôl troed llai ar safle Tredŵr. Bydd hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â’r holl safonau/deddfwriaethau cyfredol angenrheidiol gan wneud y mwyaf o’r tir sydd ar gael i’w werthu er mwyn cynhyrchu derbyniad cyfalaf a chaniatáu datblygiad tai yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol a gymeradwywyd;

(2) awdurdodi bod y derbyniad cyfalaf o werthu tir y Cyngor yn Nhredŵr yn cael ei ail-fuddsoddi i gefnogi’r gwaith o ddatblygu’r depo, oherwydd pe na ddatblygwyd y depo newydd a gynigwyd uchod, ni fyddai'n bosibl rhyddhau'r holl dir i’w werthu;

(3) cymeradwyo bod swm cyfalaf pellach o £4,944,000 yn cael ei gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf i adnewyddu ac ailddatblygu'r depo yn llawn fel y cynigwyd, gan gynnwys adnewyddu'r adeiladau priodol.

## 243. RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION - BAND B

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd wrth y Cyngor, yng ngoleuni'r cyhoeddiad gan yr Ysgrifennydd Addysg ynghylch yr arian ychwanegol sydd ar gael ar gyfer Band B o’r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, y bydd Llywodraeth Cymru yn talu 65% o’r costau cyfalaf am ysgol newydd, gyda'r awdurdodau lleol yn talu'r 35% sy'n weddill. Yn achos unedau cyfeirio disgyblion ac ar gyfer cyfleusterau i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, y gyfradd ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru fydd 75%, gyda'r awdurdodau lleol yn talu'r 25% sy'n weddill. Gofynnodd am dynnu’r adroddiad yn ôl er mwyn rhoi cyfle i swyddogion ddadansoddi'r effaith y bydd y newidiadau yn ei chael ar y rhaglen moderneiddio ysgolion.

PENDERFYNWYD: Bod yr adroddiad yn cael ei dynnu’n ôl a bod adroddiad diwygiedig yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

## 244. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A CHRAFFU 2017-18

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio Adroddiad Blynyddol ar swyddogaeth Trosolwg a Chraffu'r awdurdod sy'n goruchwylio dull y Cabinet o wneud penderfyniadau ac yn cefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor.

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio fod Adroddiad Blynyddol Craffu 2017-2018 yn darparu manylion ar y canlyniadau a'r cyflawniadau gan Aelodau Craffu a swyddogion yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â nodi meysydd i'w gwella i sicrhau bod y craffu'n dal i ddatblygu ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer trigolion Pen-y-bont ar Ogwr. O ganlyniad i hunanasesu, dywedodd fod y swyddogaeth craffu'n cyflwyno gwasanaeth da ond bod y disgwyliadau gan awdurdodau partner, Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru yn dal i gynyddu. Nid yw trefniadau craffu rhanbarthol a phartneriaeth wedi'u datblygu'n llawn eto ond maent yn mynd rhagddynt o ganlyniad i sefydlu’r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Rhoddodd yr Aelodau ddiolch i'r Swyddogion Craffu am y ffordd maent yn dod â'r gwasanaeth at ei gilydd i alluogi'r Pwyllgorau Craffu i graffu ar ystod eang o bynciau.

Gwnaeth Aelodau hefyd ganmol y broses Ymchwilio i'r Gyllideb a'i Gwerthuso am ychwanegu gwerth at y broses gyllidebu. Credodd Aelodau, er bod y swyddogaeth graffu yn cael ei chanmol, bod angen iddi ymgysylltu'n well â'r cyhoedd drwy gynnal cyfarfodydd yn y gymuned ac ymgymryd â'r adolygiad o'i bolisïau a'i weithdrefnau. Gwnaeth aelodau'r Cyngor ddiolch i Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu am y gwaith gwerthfawr a wneir ganddynt sy'n un o swyddogaethau pwysig yr awdurdod.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

245. HYSBYSIAD O'R CYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ALEX WILLIAMS

Wrth gyflwyno Hysbysiad o'r Cynnig, diolchodd y Cynghorydd A Williams yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd am ddylanwadu ar Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch setliad dros dro'r llywodraeth leol. Croesawodd y newyddion fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi cyhoeddi'n ddiweddar gyllid ychwanegol i addysg a gofal cymdeithasol ond roedd yn parhau i fod yn setliad heriol er mwyn ariannu'r cynnydd mewn dyfarniadau cyflog a chyfraniadau pensiwn.

"Bod y Cyngor hwn yn:

Gresynu at setliad cyllido dros dro'r llywodraeth leol ar gyfer 2019/2020 a fydd yn arwain at 0.6% o doriad mewn cyllid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Nodi gyda phryder rhybudd Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y bydd canlyniadau addysg plant yn cael eu heffeithio gan doriadau mewn cyllidebau ysgolion oni bai y caiff newidiadau mawr eu gwneud i setliad cyllido'r llywodraeth leol.

Croesawu'r £550 miliwn ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn gan Drysorlys Llywodraeth y DU rhwng nawr a 2021 ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu cyllid llywodraeth leol.

Galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ei fformiwla cyllido ar unwaith er mwyn i lywodraeth leol ariannu'n ddigonol y pwysau ychwanegol y mae cynghorau'n ei wynebu o ganlyniad i ddyfarniadau cyflog, cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr i bensiynau athrawon a chynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd yn allanol.

Cymeradwyo argymhellion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei chyhoeddiad diweddaraf, "Cyllid Teg a Chynaliadwy ar gyfer Gwasanaethau Lleol Hanfodol" ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar rymuso awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau ariannol yn lleol gan ddarparu hyblygrwydd ariannol trwy'r Grant Cymorth Refeniw yn hytrach na chanoli cyllid ar ffurf grantiau penodol.

Galw ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i wneud popeth a all i ddiogelu gwasanaethau craidd mewn cyfarwyddiaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn ei gyllideb ar gyfer 2019/20".

Cafodd yr Hysbysiad o'r Cynnig ei eilio gan y Cynghorydd N Clarke.

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd gynnig diwygiad i'r Hysbysiad o'r Cynnig gan ychwanegu'r geiriau canlynol i'r Hysbysiad o'r Cynnig:

"Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth y DU i ariannu'n llawn y cynnydd ym mhensiynau athrawon".

Cafodd y diwygiad hwn ei eilio gan y Cynghorydd RME Stirman.

PENDERFYNWYD: Bod yr Hysbysiad o'r Cynnig gwreiddiol fel y'i diwygiwyd yn cael ei gymeradwyo a bod yr Hysbysiad o'r Cynnig yn cael ei anfon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol.

246. I DDERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN Y WEITHREDIAETH GAN:

**Cwestiynau i Aelod y Cabinet dros Gymunedau gan y Cynghorydd A Hussain**

A wnaiff Aelod y Cabinet roi gwybod i'r Cyngor a yw'r gwasanaeth croesfannau ysgol yn cael ei ddiddymu?

**Ymateb Aelod y Cabinet dros Gymunedau:**

Nid oes cynlluniau i ddiddymu'r gwasanaeth Hebryngwyr Croesfannau Ysgol yn gyfan gwbl. Byddai arbediad yr MTFS a gynigiwyd sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd yn deillio o adolygiad o safleoedd Hebryngwyr Croesfannau Ysgol yn unol â'r safonau a gydnabyddir yn genedlaethol. Sicrhau bod y lleoedd hynny sydd â'r nifer fwyaf o gerddwyr a symudiadau cerbydau yn cael eu cynnal, gan roi'r gorau i'r gwasanaeth o bosibl mewn safleoedd tawelach sydd â lefelau risg is. Mae hefyd yn bwysig amlygu mai'r rhieni neu warcheidwaid sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol yn ddiogel.

Roedd y Cynghorydd Hussain yn edrych ymlaen at adroddiad yr adolygwr ac yn gobeithio y bydd Ysgol Pen y Fai ymysg yr ysgolion lle bydd y gwasanaethau'n cael eu cynnal a gofynnodd gwestiwn ychwanegol ynghylch yr ysgolion hynny lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddiddymu, a wnaiff Aelod y Cabinet roi gwybod sut y bwriedir gwneud croesfannau ysgol yn ddiogel i rieni a phlant eu croesi? Gwnaeth Aelod y Cabinet dros Gymunedau roi gwybod i'r Cyngor fod proses sgorio ar waith er mwyn adolygu Hebryngwyr Croesfannau Ysgol, sy'n dibynnu ar y math o heol, nifer y cyffyrdd a nifer y bobl. Dywedodd fod y meini prawf o ran nifer y bobl wedi newid ac nad oedd bellach yn ystyried nifer yr oedolion sy'n defnyddio heol benodol. Rhoddodd wybod i'r Cyngor nad oedd yr awdurdod wedi mabwysiadu'r meini prawf newydd ond yn glynu at God 2012.

Gwnaeth aelod o'r Cyngor gwestiynu sut gall yr awdurdod geisio lleihau nifer y rhieni sy'n gyrru eu plant i'r ysgol. Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau wybod i'r Cyngor fod llwybrau Teithio Llesol yn eu lle ac roedd o'r farn y bydd rhieni sy'n mynd â'u plant i'r ysgol ar droed yn parhau i wneud hynny. Dywedodd fod gan y Cyngor gyfrifoldeb i greu llwybrau diogel i'r ysgol. Hysbysodd y Cyngor am yr anawsterau yn recriwtio hebryngwyr croesfannau ysgol.

**Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd T Giffard**

Ar 1 Tachwedd, gwnaeth GEM Pen-y-bont ar Ogwr adrodd bod Aelod Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dros Addysg ac Adfywio wedi dweud y byddai 'dirwasgiad enfawr, diweithdra, prinderau a chywilydd rhyngwladol' yn 'beth da' yn yr hirdymor petai'n golygu bod Prydain yn aros o fewn yr UE.

A wnaiff yr Arweinydd esbonio sefyllfa'r Cabinet ynghylch y sylwadau hyn, a chadarnhau ai dyma ganlyniad dewisol y Cyngor ai peidio?

**Ymateb yr Arweinydd:**

Roedd sylwadau'r Cynghorydd Smith yn fwriadol eironig. Gwnaeth y postiad ar Facebook wedyn gyfeirio ato'n cael ei "arestio am annog gwrthryfel a meddu ar feddyliau anwlatgar", ac yn amlwg, ni fydd hynny'n digwydd!

Wedi iddo sylweddoli bod ei sylwadau wedi'u camddehongli, cafodd wared arnyn nhw oddi ar Facebook. Mae’r rhain yn sylwadau na fyddwn i wedi'u gwneud ac rwyf wedi siarad â’r Cynghorydd Smith ac mae ef wedi ymddiheuro.

Yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd nas gwelwyd erioed o’r blaen, mae holl Aelodau'r Cabinet yn glir ein bod yn dymuno y bydd unrhyw effaith negyddol ar gymunedau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cymru a'r Deyrnas Unedig yn cael ei lleihau cymaint â phosibl. Rwy'n siŵr bod hon yn farn a rennir gan yr holl Aelodau.

Wrth ddiolch i'r Arweinydd am ei ymateb, roedd y Cynghorydd Giffard yn gobeithio y byddai'r Arweinydd yn parhau i weithio ar draws pob lefel o'r Llywodraeth a phartïon.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor sut mae'r Cyngor yn paratoi ar gyfer Brexit. Datganodd yr Arweinydd fod cyfarfod wedi'i gynnal gyda swyddogion y Swyddfa Gartref lle y trafodwyd prinder meddyginiaeth a chyflenwadau bwyd. Dywedodd y derbyniwyd cyngor gan y Swyddfa Gartref yn hwyr yn y broses ond y byddai’r Cyngor yn sicrhau y bydd mor barod ag y gall fod pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Dywedodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau wrth y Cyngor fod Grŵp Brexit wedi'i sefydlu a oedd yn edrych ar y risgiau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

247. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

248. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem fusnes ganlynol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

O ganlyniad i gymhwyso’r prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, ystyried yr eitem a enwir isod yn breifat gyda'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod oherwydd y byddai'n cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir uchod.

249. CYMERADWYO COFNODION EITHRIEDIG

250. COSTAU DISWYDDO AC YMDDEOLIAD CYNNAR YN FWY NA £100,000

Daeth y cyfarfod i ben am 17:10